

Teithio Ymlaen: Swyddog Ymgysylltu â Menywod (Gogledd Cymru)

Mae TGP Cymru yn elusen flaenllaw yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant a gweithgarwch ymgyrchu. Caiff gwasanaethau TGP Cymru eu hariannu drwy sawl cyllidwr a'u darparu ledled Cymru.



Adran TGP Cymru: Gwasanaethau i Deuluoedd

Yn gyfrifol i: Rheolwr Tîm: Teithio Ymlaen

Lleoliad: Gweithio Hybrid – gweithio gartref, ynghyd â gweithio a theithio ledled rhanbarth Gogledd Cymru

Diben y rôl:

Mae prosiect Teithio Ymlaen yn darparu gwasanaeth eiriolaeth sy'n gweithio gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o amgylch Cymru (plant, pobl ifanc ac oedolion), yn cefnogi mynediad at hawliau ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwahaniaethu.

Mae tîm Teithio Ymlaen yn gweithio gartref, gyda chymysgedd o waith rhithwir ac wyneb yn wyneb. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth cynghori i deuluoedd Roma o'r UE ledled Cymru i wneud cais am statws preswylwyr sefydlog yn y DU, prosiect cymorth i ofalwyr a phrosiectau eiriolaeth cymunedol.

Nod ein prosiect, a ariennir gan Lywodraeth Iwerddon, yw ymgysylltu â theuluoedd sy'n Deithwyr Gwyddelig a darparu gwasanaethau allgymorth a chymorth eiriolaeth ehangach mewn lleoliadau galw heibio cymunedol, a gweithio ochr yn ochr â theuluoedd i gefnogi gwell mynediad at wasanaethau fel iechyd, addysg a llety.

Mae'r prosiect hefyd yn anelu at gefnogi mwy o gyfranogiad a hyder ymhlith teuluoedd sy'n Deithwyr Gwyddelig wrth ddatblygu'r prosiect hwn, yn ogystal â mynd i'r afael â rhwystrau fel gwahaniaethu a chyfranogi yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Bydd y Swyddog Ymgysylltu, sy'n swydd dros dro (18.5 awr), yn mynd ati'n benodol i ddatblygu gwaith gyda menywod sy'n Deithwyr Gwyddelig ledled Gogledd Cymru, ochr yn ochr â'n tîm presennol. Bydd y gwaith yn cynnwys darparu cymorth uniongyrchol ac eiriolaeth un-i-un yn ogystal ag eiriolaeth mewn lleoliadau grŵp a chefnogi menywod i ddatblygu sgiliau ar gyfer hunaneiriolaeth a meithrin hyder.

Caiff y swydd hon ei hariannu dros dro tan 30 Mehefin 2025.

Atebolrwydd / Cyfrifoldebau

- Bod yn gyfrifol am ddatblygu elfennau o waith y Gwasanaeth, o dan gyfarwyddyd y Rheolwr Tîm
- Darparu cyngor, eiriolaeth a chyfleoedd i fenywod sy'n Deithwyr Gwyddelig ochr yn ochr ag aelodau o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr eraill, gael mynediad at hawliau a chymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

- Datblygu, cefnogi a gweithio mewn partneriaeth â menywod sy'n Deithwyr Gwyddelig ledled Gogledd Cymru, gan sicrhau bod eu lleisiau yn ganolog i'r gwasanaethau a ddarperir a'r gwaith cynllunio sy'n effeithio ar eu cymunedau.
- Codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth a brwdfrydedd dros waith y Gwasanaeth, ymhlith cymunedau o Deithwyr Gwyddelig a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Cydweithio a negodi â gweithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau, disgwyliadau a chyfraniadau'n cael eu trefnu a'u deall yn iawn ac y gweithredir arnynt yn briodol.
- Sicrhau bod cyfle cyfartal ac arferion gwrthwahaniaethol yn cael eu cynnal, a bod safonau TGP Cymru yn cael eu cymhwyso yn hyn o beth.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth yn erbyn y fframwaith o ganlyniadau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Sicrhau bod pryderon diogelu sy'n codi yn cael eu nodi a bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud o ran asesu risg ac atgyfeirio at Wasanaethau Cymdeithasol / asiantaethau priodol eraill o dan oruchwyliath y Rheolwr Tîm.
- Sicrhau bod ymyriadau'n cael eu rheoli o fewn y dyraniadau y cytunwyd arnynt.
- Cydymffurfio â systemau ariannol a gweinyddol y Gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru.
- Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru ar gofnodi, rheoli data ac amddiffyn plant.
- Cynnal cyfrinachedd o ran y wybodaeth a geir gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn unol â pholisïau TGP Cymru.
- Rhwydweithio'n briodol o fewn y gymuned.
- Cyfrannu at fforymau polisi a chynllunio lleol fel y bo'n briodol.
- Gweithio ar y cyd â chydweithwyr.
- Bod yn gyfrifol am eich datblygiad proffesiynol eich hun ac ymgymryd â'r hyfforddiant priodol yn ôl yr angen.
- Y cyfryw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y gall y sefydliad ofyn yn rhesymol i chi ymgymryd â nhw ac sy'n gyson â gradd y swydd.

Dangosyddion Perfformiad

- Bod yn gyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfio â gofynion a safonau statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac arfer da.
- Cyflawni amcanion a thargedau'r gwasanaethau ac amcanion a thargedau unigol.

Cyfrifoldeb rheolwr llinell:

0

Cyfrifoldeb rheoli cyllideb:

£0

Gradd:

MS6

Amodau gwaith:

18.5 awr yr wythnos gyda dull hyblyg o weithio yn ystod yr wythnos. Gall fod angen gweithio y tu allan i oriau swyddfa, neu weithiau ar benwythnosau neu aros dros nos i fynychu hyfforddiant / cynadleddau / digwyddiadau neu debyg.

Mae pob aelod o staff yn gweithio gartref, sy'n gofyn am gymysgedd o arferion gwaith a chyfathrebu â chleientiaid a phartneriaid dros y ffôn, drwy e-bost a thrwy ffyrdd digidol eraill yn ogystal ag wyneb yn wyneb ac allgymorth yn ôl y gofyn.

Gall fod yn bosibl cael mynediad at ofod swyddfa TGP os bydd angen, yn dibynnu ar y lleoliad.

Gall fod angen teithio i leoliadau gwahanol ledled Cymru a'r DU o bryd i'w gilydd.

Cymwysterau

- Cymhwyster proffesiynol ym maes gwaith cymdeithasol, ieuenctid a chymunedol, neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel lechyd ac Addysg (Dymunol)
- Cymhwyster Eiriolaeth Annibynnol (neu barodrwydd i weithio tuag at y cymhwyster) (Hanfodol)

Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Gweithio mewn ffordd rymusol a diwylliannol gymwys gyda phob cleient
- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefnidir pobl eraill
- Cyfathrebu'n effeithiol h.y. cyfleu gwybodaeth a syniadau mewn ffordd glir, gryno a chywir; gwrando'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu
- Bod yn agored i ddulliau gweithredu a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Ceisio cyfleoedd i ddysgu'n barhaus a thyfu'n broffesiynol

Gwybodaeth / Profiad

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn o'r canlynol a chofnodi'r hyn a gyflawnwyd:

- Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o faterion sy'n wynebu menywod sy'n Deithwyr Gwyddelig neu gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ehangach
- Gwaith uniongyrchol gyda chymunedau Teithwyr Gwyddelig neu gymunedau eraill sy'n wynebu gwahaniaethu ac allgáu
- Profiad o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth, cynghori neu gymorth
- Gwaith uniongyrchol gyda menywod neu ferched mewn sefyllfaoedd cymhleth gan gynnwys amddiffyn
- Cynllunio, arwain a chyflwyno darnau o waith uniongyrchol i rymuso a chefnogi cyfranogiad menywod a merched

- Meithrin perthnasoedd, partneriaethau, gwaith amlasiantaethol, datblygu cymunedol

Arall

- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth ac arferion gwrth-hiliol
- Trwydded yrru lawn a mynediad at drafnidiaeth (*Mewn rhai amgylchiadau, gellir ystyried ymgeiswyr sy'n methu gyrru oherwydd anabledd*)
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol)
- Dangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a hyrwyddo'r gwerthoedd a'r ymddygiadau hynny mewn pobl eraill